

Ydych chi'n cael trafferthion wrth ddarllen y cylchlythyr hwn? [Edrychwch arno yn eich porwr.](#)

# bwletin gweinyddiaeth etholiadol



Rhifyn 249 (Cymru) – 2 Hydref 2019

## Seminar hyfforddi ar gyfer Swyddogion Canlyniadau / Swyddogion Cofrestru Etholiadol

Ddydd Gwener 27 Medi, cynhaliodd Bwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru a'r Comisiwn Etholiadol seminar hyfforddi ar gyfer Swyddogion Canlyniadau a Swyddogion Cofrestru Etholiadol yng Nghymru.

Daeth nifer dda o gynrychiolwyr i'r seminar o 20 o awdurdodau lleol yng Nghymru. Rhoddodd y digwyddiad cyfle i SCau / SCEau rannu gwybodaeth, dysgu o brofiadau ac ystyried pa mor barod ydynt ar gyfer y digwyddiad etholiadol nesaf.

Roedd y Llywydd, Elin Jones AC, a chynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru hefyd yn bresennol a rhoddodd ddiweddariad ar hynt Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru) a Bil Llywodraeth Leol (Cymru). Yn ogystal, cynhaliwyd sgysiau ar wahân gan Caroline Turner ym Mhowys am eu blwyddyn brysur, a Colin Everett, Cadeirydd y BCEC.

Hoffem ddiolch i bawb a fynychodd y seminar a chyfrannu iddi.

## Canfas 2019: arolwg o wybodaeth reoli

Fel rhan o'n gweithgareddau ymgysylltu â rhanddeiliaid drwy gydol y canfas, byddwn yn casglu gwybodaeth gan bob Swyddog Cofrestru Etholiadol drwy ein [harolwg o wybodaeth reoli](#).

Mae'r arolwg yn gofyn am ddata am yr adeg y gwnaethoch ddsbarthu Ffurflenni Ymholiadau Cartrefi a Gwahoddiadau i Gofrestru, ac yn gofyn am eich cynlluniau ar gyfer cysylltu â'r cartrefi neu'r unigolion hynny nad ydynt wedi ymateb eto. Mae hefyd yn gofyn am wybodaeth lefel uchel am ganfasio personol ac unrhyw sylwadau yr hoffech eu gwneud ar heriau penodol a wynebwyd gennych neu unrhyw ddulliau gweithredu newydd y gwnaethoch roi cynnig arnynt a weithiodd yn dda yn eich barn chi. Yn ogystal, bydd cwestiwn am eich dull o gyhoeddi hysbysiadau o addasiadau fel y

Y  
Comisiwn  
Etholiadol

## Cynnwys

### Seminar hyfforddi ar gyfer Swyddogion Canlyniadau / Swyddogion Cofrestru Etholiadol

Uchafbwyntiau'r seminar a gynhaliwyd ddydd Gwener 27 Medi

### Canfas 2019: arolwg o wybodaeth reoli

Manylion am yr arolwg o wybodaeth reoli'r canfas a'r wybodaeth rydym yn bwriadu ei chasglu.

### Etholiadau Mai 2020: Arolwg Swyddfa'r Cabinet i asesu effaith debygol Gŵyl Banc mis Mai

Gwybodaeth am arolwg a gyhoeddwyd gan Swyddfa'r Cabinet a dolen i'r arolwg hwnnw.

### Adroddiad blynyddol y Comisiwn Etholiadol ar gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg

Gwybodaeth am adroddiad y Comisiwn ar gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg, a gyhoeddwyd Medi 27 a dolen i'r adroddiad hwnnw.

Cyhoeddir Bwletinau Gweinyddiaeth Etholiadol yn rheolaidd. Maent yn un o'r prif ffyrdd o gyfathrebu â Swyddogion Canlyniadau, Swyddogion Cofrestru Etholiadol a'u staff. Mae rhifynnau blaenorol o'r Bwletinau ar gyfer Cymru, Lloegr a'r Alban ar gael [yma](#).

nodir ym [Mwletin 247](#).

Cwblhewch yr arolwg erbyn dydd Gwener 18 Hydref fan bellaf.

Os bydd gennych unrhyw gwestiynau neu bryderon am y broses, cysylltwch â [thîm lleol y Comisiwn](#).

### Etholiadau Mai 2020: Arolwg Swyddfa'r Cabinet i asesu effaith debygol Gŵyl Banc mis Mai

Mae Swyddfa'r Cabinet wedi llunio [arolwg byr](#) i gasglu gwybodaeth am effaith debygol newid Gŵyl Banc mis Mai ar draul cynnal etholiadau Comisiynwyr Heddlu a Throseddau ym mis Mai 2020. Dosbarthwyd yr arolwg hwn yn flaenorol gan Gymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol - dim ond unwaith y bydd angen i chi gwblhau'r arolwg hwn.

Y dyddiad cau ar gyfer cwblhau'r arolwg yw **dydd Gwener 25 Hydref**.

Os bydd gennych unrhyw gwestiynau mewn perthynas â'r arolwg hwn, cysylltwch ag [elections@cabinetoffice.gov.uk](mailto:elections@cabinetoffice.gov.uk).

### Adroddiad blynyddol y Comisiwn Etholiadol ar gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg

Gwnaethom gyhoeddi ein [hadroddiad blynyddol](#) ar gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg ar 27 Medi.

Yn yr adroddiad, rydym yn mynd i'r afael yn fanwl â'r ffordd rydym yn cydymffurfio â'r safonau cyflenwi gwasanaeth, safonau llunio polisi a safonau gweithredu rydym yn eu dilyn. Mae'r safonau hyn yn cynnwys lefel sgiliau Cymraeg staff, gwybodaeth am unrhyw gwynion a gafwyd mewn perthynas â'r ffordd rydym yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg, a'r ffordd rydym yn ymdrin â gohebiaeth a chyfathrebiadau a gawn.

Mae'r adroddiad hwn hefyd yn dathlu rhagoriaeth ac arfer da lle rydym yn mynd y tu hwnt i'n dyletswyddau statudol, a'r ffordd rydym yn gweithio yn unol â strategaeth "[Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr](#)" Llywodraeth Cymru.

Y Comisiwn Etholiadol, Cymru  
Tŷ'r Cwmnïau, Ffordd y Goron, Caerdydd, CF14 3UZ  
Ffôn: 0333 103 1929

Ffôn testun: 18001 020 7271 0500  
[infowales@electoralcommission.org.uk](mailto:infowales@electoralcommission.org.uk)

[www.comisiwnetholiadol.org.uk](http://www.comisiwnetholiadol.org.uk)

(h) Y Comisiwn Etholiadol 2019

Gallwch hefyd danysgrifo i'r [Bwletinau Gweinyddiaeth](#)

[Etholiadol](#). Cofiwch [roi gwybod i ni](#) am unrhyw newidiadau i'r staff yn eich tîm. Bydd hyn yn ein helpu i sicrhau bod ein rhestrau dosbarthu yn gyfredol.

Os oes Swyddog Canlyniadau/Swyddog Cofrestru Etholiadol newydd wedi'i benodi yn eich awdurdod, cysylltwch â'r tîm yng Nghymru drwy e-bostio [gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk](mailto:gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk).

Rydym yn anfon y cylchlythyr hwn atoch gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth bwysig am waith y Comisiwn Etholiadol sy'n berthnasol i chi. Mae'r cylchlythyr yn rhan o dasg gyhoeddus y Comisiwn Etholiadol sy'n seiliedig ar Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000. Byddwn yn rheoli eich gwybodaeth bersonol a'ch manylion cyswllt yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a deddfwriaeth diogelu data'r DU fel yr amlinellir yn ein hysbysiad preifatrwydd (<https://www.electoralcommission.org.uk/cy/hysbysiad-preifatrwydd>)

Os nad ydych am gael y cylchlythyr hwn mwyach, gallwch [ddatdanysgrifio](#) ar unrhyw adeg.